# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| <u>**Aelodau’n bresennol:**</u> | <u>**Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022**</u> |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod C.James** |
| **Cynghorydd**: | S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, T.Bowen, H.Davies, C.James, C.Jordan, C.Phillips a/ac S.Thomas |
| **Aelodau lleol:** | Cynghorydd D.Thomas, W.Carpenter a/ac S.Penry |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Pearce, C.Morris, C.Davies, M.Shaw, C.Hall, J.Griffiths, D.Thomas, K.Pearce a/ac C.Plowman |

---

1. <u>**CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**</u>

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. <u>**DATGANIADAU O FUDDIANNAU**</u>

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. <u>**COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**</u>

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2022 a 8 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

4. <u>**GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**</u>

   Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ymweliad(au) safle.

5. <u>**CAIS RHIF P2022/0608 - ADEILAD JCG, YSTAD DDIWYDIANNOL HEOL MILLAND, CASTELL-NEDD**</u>

Darparodd Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn,
(cais i newid defnydd arwynebedd llawr diwydiannol gwag (Dosbarth Defnydd B2) er mwyn darparu campfa ar y llawr cyntaf (Dosbarth Defnydd D2) a chaffi ar y llawr gwaelod) yn adeilad JCG, Ystad Ddiwydiannol Heol Milland, Castell-nedd, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau Ward Lleol wedi gofyn am i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor ac roeddent yn bresennol i roi eu sylwadau yn y cyfarfod.

Yn unol â phrotocol siarad cyhoeddus cymeradwy'r cyngor, anerchwyd y Pwyllgor Cynllunio gan gynrychiolydd yr ymgeisydd i gefnogi'r cais.

**PENDERFYNWYD:** Gwrthod cais rhif P2022/0608 yn unol ag argymhellion Swyddogion, oherwydd y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 6. PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG RHWNG 1 TACHWEDD 2022 A 5 RHAGFYR 2022

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 1 Tachwedd i 5 Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 7. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**